# Papur y Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur** | **Adroddiad Cyllid** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B 19.09** |
| **Paratowyd y papur gan:** | Andrea Morgan, Rheolwr Cyllid Busnes<br>Rob Bell, Pennaeth Cyllid |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Rob Bell, Pennaeth Cyllid |
| **Noddwyd y papur gan:** | **Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Craffu a phenderfynu** |
| **Argymhelliad:** | Craffu ar berfformiad ariannol y flwyddyn bresennol ar gyfer 2018-19.<br><br>Penderfynu ar sut y rhoddir sicrwydd ynghylch Adroddiad a Chyfrif Blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>Nodwch y sefyllfa o ran eitemau a anfonir i Lywodraeth Cymru eu cymeradwyo. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** | **Edrych i'r hirdymor:**<br>Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y flwyddyn ariannol bresennol, ac mae rheolaeth ariannol gadarn yn elfen bwysig wrth gynllunio ar gyfer yr hirdymor.<br>**Atal problemau rhag codi.**<br>Mae'r papur hwn yn tynnu sylw at y camau sy'n cael eu cymryd er mwyn lliniaru pwysau ariannol yn y dyfodol. |

## Mater

1. Adrodd am y sefyllfa ariannol hyd at fis Tachwedd 2018 i'r Bwrdd.

# Papur y Bwrdd

2. Yn unol â'n Cynllun Dirprwyo Ariannol, gofynnir i'r Bwrdd nodi eitemau a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf.

3. Penderfynu a ydym yn dymuno newid ein proses bresennol ynglŷn â'r sicrwydd a ddarperir gan y Bwrdd ynglŷn â'n Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn dilyn argymhelliad a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Crynodeb

4. **Perfformiad ariannol hyd at fis Tachwedd 2018**: roedd yr incwm yn £134.1 miliwn o'i gymharu â chyllideb bresennol o £133.9 miliwn a gwariant o £99.8 miliwn o'i gymharu â £109.8 miliwn. Mae'r perfformiad ariannol yn yr adroddiad hwn wedi'i fesur yn erbyn y gyllideb ddiwygiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2018.


## Asesu

### Perfformiad ariannol – Tachwedd 2018

5. Roedd yr incwm presennol fel y'i disgwyliwyd sef £134.1 miliwn, a oedd yn £0.2 miliwn yn fwy na'n cyllideb ddiwygiedig. Mae'r gyllideb uwch ar gyfer gwerthiant coed yn dal ar y trywydd cywir i allu cyflawni'r targed.

6. Yn ystod ein Hadolygiad Canol Blwyddyn gyda Thimau Arwain y Gyfarwyddiaeth ar berfformiad ariannol a'r risgiau ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol, gwnaethant nodi bod prosiectau refeniw'n cael eu cyflawni'n arafach na'r disgwyl, sy'n gysylltiedig ag effaith dull cynllunio a recriwtio'r sefydliad, a chyflawni rhaglenni cyfalaf fel meysydd risg allweddol.

7. Ar ddiwedd mis Tachwedd, rydym wedi gwario 50% o'r gyllideb flynyddol sydd werth £198.1 miliwn. Roedd y gwariant yn £10 miliwn yn llai na'r gyllideb bresennol. Mae hyn yn peri pryder, o ran llithrant yn erbyn cynlluniau gwariant ar gyfer y rheini nad ydynt yn aelodau o staff (9%), Prosiectau Refeniw (19%) a Chostau Cyfalaf (25%). Yr amrywiaeth fwyaf yw'r Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd (£3.8 miliwn). Mae'r diagram isod yn tynnu sylw at feysydd gwariant allweddol sy'n cyfrannu at yr amrywiaeth mewn gwariant.




8. Mae **Atodiad A** yn crynhoi'r rhesymau dros y tanwario a rhai o'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd. Mae angen i ni wella ein perfformiad ariannol a gwelir isod rhai o'r mentrau sy'n cael eu datblygu i gyflawni hyn, ond bydd y rhan fwyaf o'r buddion yn cael eu gweld yn y flwyddyn ariannol nesaf.

- Yn dilyn gwaith cynllunio’r sefydliad, prosesau recriwtio gwell a lefelau gor-raglennu cynyddol ar gyllidebau'r staff.
- Bydd mabwysiadu'r rhaglen arfer gorau a rheoli prosiectau gan y Bwrdd Busnes yn gwella'r defnydd o gyllideb y prosiect.
- Dylanwadu ar fethodoleg ariannu Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd Llywodraeth Cymru er mwyn ein galluogi i reoli risgiau trwy ddull gor-raglennu.
- Yn dilyn gwaith cynllunio’r sefydliad, byddwn yn darparu hyfforddiant ariannol pellach i Reolwyr Cyllidebau. Bydd llai o arweinwyr tîm a rheolwyr ond bydd ganddynt gymysgedd gwell o sgiliau allweddol.
- Gwelliannau i adroddiadau ariannol, gan ddefnyddio adroddiadau arddull dangosfwrdd sy'n haws i'w defnyddio.

**<u>Rhagolwg Chwarter 3</u>**

9. Rydym yn cynnal adolygiad o gyllidebau Chwarter 3 ar hyn o bryd. Bydd yr ymarfer hwn yn targedu'r meysydd hynny sy’n wynebu'r risg fwyaf sylweddol.

10. Bydd cyfarwyddwyr yn derbyn rhestr o'r prosiectau sydd â chyllidebau yn weddill ar gyfer y flwyddyn er mwyn iddynt eu trafod gyda'u timau rheoli fel rhan o'r adolygiad hwn.

11. Bydd canlyniadau'r adolygiad hwn yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Gweithredol ym mis Ionawr ar gyfer eu cymeradwyo.

**Eitemau i'w nodi**

12. Yn unol â'n Cytundeb Fframwaith gyda Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Dirprwyo Ariannol, mae'r tabl hwn yn dangos eitemau y mae'n ofynnol i'r Bwrdd eu nodi:

| Eitem | Rheswm i'w nodi | Disgrifiad | Cymeradwyaeth |
|---|---|---|---|
| Defnydd o incwm ffermydd gwynt | Gwnaed cyfeiriad i Lywodraeth Cymru yn unol â'n Dogfen Fframwaith | Ceisiwyd cymeradwyaeth o ran cadw incwm ffermydd gwynt i dalu costau gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru wrth iddynt fynd ar drywydd pob agwedd ar amcanion polisi ynni Llywodraeth Cymru. | Disgwylir am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd |
| Contractau Hirdymor - Trefniadau pontio | Gwnaed cyfeiriad i Lywodraeth Cymru yn unol â'n Dogfen Fframwaith | Gofynnwyd am gymeradwyaeth o ran parhau â'r trefniadau pontio mewn perthynas â'u natur newydd, cynhennus a sgil-effeithiol. | Nodwyd gan Lywodraeth Cymru |
| Cymeradwyaethau gan Lywodraeth Cymru | Diwygiadau a awgrymwyd i'n Dogfen Fframwaith | Tynnwyd ein sylw at y ffaith y bydd y trafodion a ddisgrifir yn ein Dogfen Fframwaith, sydd angen cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, yn cael eu dirprwyo i Cyfoeth Naturiol Cymru o 1 Ebrill 2019.<br><br>Yn unol â'n Cynllun Dirprwyo Ariannol mae pob trafodiad sydd angen cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i'w hysbysu. Bydd y trafodion hyn yn cael eu hadolygu fel rhan o'r adolygiad presennol o'r Cynllun Dirprwyo Ariannol a chyflwynir papur yn y cyfarfod Bwrdd nesaf ar gyfer ei ystyried a'i gymeradwyo. | Disgwylir am ganiatâd gan Lywodraeth Cymru |

13. Mae un penderfyniad newydd, cynhennus neu sgil-effeithiol sy'n disgwyl cymeradwyaeth gan y Bwrdd sy'n ymwneud ag Ardal Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg ac fe'i cynhwysir o fewn y papur "Ardaloedd Draenio Mewnol - Praeseptau, Ardrethi ac Ardollau".

**Cynigion i Newid y Trefniadau ar gyfer llofnodi'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol**

14. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yn darparu sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu (Prif Weithredwr) i lofnodi'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol. Darperir copi o'r Adroddiad Blynyddol (heb gynnwys y Cyfrifon) i'r Bwrdd ar gyfer sylwadau yn ystod y broses, gan sicrhau mewnbwn gan holl aelodau'r Bwrdd.

15. Yn dilyn trafodaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, rydym yn cynnig bod cyfraniad y Bwrdd cyfan yn cael ei ffurfioli trwy'r ffyrdd canlynol:

- Parhau â'r drefn lle mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn darparu sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu;
- Sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn cael cyfle i gyfrannu at ddatblygiad yr Adroddiad Blynyddol;
- Bod yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn cael ystyriaeth derfynol gan y Bwrdd cyn bod y Swyddog Cyfrifyddu yn llofnodi'r ddogfen ac yn ei chyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru lofnodi'r Farn Archwilio a'i chyflwyno i'r Cynulliad.
- Gallai hyn arwain o bosibl at newid amseriad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Gorffennaf yn ogystal ag arwain at newid ar gyfer amseriad archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru (gyda'r dyddiadau cau yn cael eu dwyn ymlaen). Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn barod i newid ei hamserlen.

## Argymhellion

16. Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar berfformiad ariannol y flwyddyn bresennol ar gyfer 2018–19.

17. Nodwch sefyllfa'r eitemau a anfonir i Lywodraeth Cymru eu cymeradwyo.

18. Gofynnir i'r Bwrdd ystyried a yw'n dymuno bod ei gyfraniad at y gwaith o gynhyrchu'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn cael ei ehangu a'i ffurfioli.

## Risgiau allweddol

19. Ceir effaith ar sefyllfa dwyn ymlaen y cymorth grant i 2019-20 a byddwn yn ceisio caniatâd Llywodraeth Cymru yn ei gylch. Cyfeiriwch at Atodiad A hefyd ar gyfer y risgiau a chyfleoedd allweddol.

## Goblygiadau ariannol

20. Mae'r papur yn ymwneud â sefyllfa ariannol a pherfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn codi ar wahân i'r amser a dreuliwyd yn creu'r ddogfen hon.

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

21. Nid oes angen cynnal un.

## Atodiadau

Atodiad A Perfformiad ariannol hyd at Dachwedd 2018